TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1 Opsiwn 1.2

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1
Strwythur y Cymhwyster ..... 2
Asesiad ..... 3
Crynodeb o'r Asesu Uned 1 ..... 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ..... 3
Trosolwg o Uned 1 Yr Oesoedd Canol: Opsiwn 1.2 Owain Glyndŵr tua 1354 - tua 1416 ..... 4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.2 Yr Oesoedd Canol: Owain Glyndŵr tua 1354-tua 1416 ..... 5
Profiadau Dysgu ..... 38
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 39
Geirfa ar gyfer Opsiwn 1.2 Yr Oesoedd Canol: Owain Glyndŵr tua 1354-tua 1416 ..... 46

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Asesiad

## Crynodeb o'r Asesu Uned 1

**Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**

**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

**Yr Oesoedd Canol**
**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197
**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354–tua 1416
**Modern Cynnar**
**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547
**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, tua 1603–tua 1660
**Modern**
**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892
**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Trosolwg o Uned 1 Yr Oesoedd Canol: Opsiwn 1.2 Owain Glyndŵr tua 1354 - tua 1416

**Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 1 yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn amser. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o rôl Owain Glyndŵr yn y berthynas rhwng Cymru a Lloegr, tua 1354-tua 1416.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 1.2 | Owain Glyndŵr tua 1354 - tua 1416 |
| | 1.2.1 | Cefndir teuluol Owain Glyndŵr |
| | 1.2.2 | Gwasanaeth milwrol Owain Glyndŵr i Rhisiart II, Brenin Lloegr |
| | 1.2.3 | Owain Glyndŵr a'r gefnogaeth i Wrthryfel Cymru |
| | 1.2.4 | Teyrnasiad Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru |
| | 1.2.5 | Marwolaeth a gwaddol Owain Glyndŵr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.2 Yr Oesoedd Canol: Owain Glyndŵr tua 1354-tua 1416

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 1.2 Cefndir: Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • arwyddocâd ardrefniant Edward, y gwrthryfeloedd yn erbyn rheolaeth Lloegr a theyrnasiad Brenin Rhisiart II o Loegr. | Y goncwest Edwardaidd o Gymru a chanlyniadau hyn i'r Cymry.<br><br>Gwrthryfeloedd y Cymry yn erbyn rheolaeth Lloegr ar ddiwedd y 13fed ganrif a drwy'r 14eg ganrif fel Madog ap Llywelyn, Owain Lawgoch a Llywelyn Bren.<br><br>Prif ddigwyddiadau teyrnasiad Rhisiart II gan gynnwys | **Gweithgareddau:**<br>Defnyddiwch fap amlinellol gwag o Gymru i ddangos lleoliadau'r hen deyrnasoedd ac ardaloedd y dywysogaeth a'r mers erbyn diwedd y 14eg ganrif.<br><br>Lluniadwch ddiagram corryn i gofnodi effeithiau gwahanol y Goncwest Edwardaidd ar Gymru.<br><br>Ar linell amser, cofnodwch yn fras fanylion gwrthryfeloedd y Cymry yn erbyn rheolaeth Lloegr rhwng 1282 a 1400. | **Gwefan(nau):**<br>An Iron Ring of Castles - Sarah Woodbury<br><br>Cymru yn yr Oesoedd Canol<br><br>Conquest of Wales by Edward I<br><br>Welsh rebellions against English rule<br><br>Madog ap Llywelyn's uprising against Edward Longshanks | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwrthryfel y Werin a'i berthynas â'i uchelwyr. | Ysgrifennwch grynodeb o'r prif broblemau a wynebodd Rhisiart II yn ystod ei deyrnasiad.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith Concwest y Normaniaid ar Gymru ynghyd â'r problemau wnaeth wynebu'r Brenin Rhisiart II, a oedd i fod i reoli Cymru yn ogystal â Lloegr<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor gryf oedd rheolaeth Lloegr dros Gymru erbyn diwedd y 14eg ganrif.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch beth oedd cryfderau a gwendidau rheolaeth Lloegr dros Gymru erbyn diwedd y 14eg ganrif. | Llywelyn Bren - Cardiff Castle<br><br>Owain Lawgoch<br><br>Wales subdued: the legacy of the Conquest<br><br>King Richard II - Historic UK<br><br>The Reign of Richard II, 1377 to 1399 - BBC History<br><br>**Fideo(s)**<br>The Conquest of Wales - Timelines<br><br>Edwardian Conquest - Sarah Woodbury<br><br>The Edwardian Conquest of Wales<br><br>Edward I, the Welsh and the Scots<br><br>Gross Designs: Invading Wales<br><br>Richard II - English Monarchs | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | King Richard II (1367-1400)<br><br>**Sain:**<br>The Peasants' Revolt of 1381 Explained<br><br>**Map(iau):**<br>Cymru ar ôl Cytundeb Trefaldwyn 1267<br><br>Gwynedd ar ôl Cytundeb Aberconwy 1277<br><br>Cymru ar ôl Statud Rhuddlan 1284<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Cwricwlwm i Gymru : History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Pennod 1.4<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Penodau 13, 14 a 15<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales,* gan Terry Breverton, Pennod 1<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Penodau 6 a 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • nodweddion bywyd yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, natur cymdeithas Cymru, dosbarthiadau cymdeithasol a rôl menywod. | Effaith y Goncwest Edwardaidd ar gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys y rhaniadau rhwng bywyd yn y dywysogaeth ac yn y mers.<br><br>Profiadau gwahanol o fywyd yng nghefn gwlad ac yn y trefi.<br><br>Seisnigeiddio'r dosbarthiadau uwch yng Nghymru.<br><br>Safle'r fenyw yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. | **Gweithgareddau:**<br>Edrychwch ar y wybodaeth am Grucywel yn yr Oesoedd Canol a nodwch nodweddion bywyd yn y cyfnod hwn fel cyflwyniad.<br><br>Lluniwch ddiagram corryn i gofnodi nodweddion cymdeithas yng Nghymru yn y cyfnod hwn gan gynnwys y dywysogaeth, y mers, trefi, cefn gwlad, uchelwyr a menywod.<br><br>Cymharwch yr hyn a ddysgwyd am Gymru yn gyffredinol â'r hyn a ystyriwyd yn wreiddiol ar gyfer Crucywel ac ystyriwch pa mor gynrychioliadol o Gymru y mae Crucywel yn yr Oesoedd Canol yn ymddangos.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall prif nodweddion bywyd yng Nghymru yn y cyfnod hwn, ond hefyd fod bywyd yn wahanol yn dibynnu ar bwy oeddech chi.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadleuwch faint yr oedd Cymru yn y cyfnod hwn yn cael ei dylanwadu gan Loegr, gydag un ochr yn dadlau ei bod yn cael ei dylanwadu'n fawr gan Loegr a'r ochr arall yn dadlau nad oedd hynny'n wir. | **Gwefan(nau):**<br>1284 to 1543: Annexation by the English crown<br><br>Population, culture and society<br><br>Economy and trade<br><br>The Welsh Marches - Lise Hull<br><br>Cymru yn yr Oesoedd Canol Cynnar<br><br>The Impact of the Edwardian Conquest - Study Rocket<br><br>Medieval Welsh society and culture - Wales History<br><br>Castles and Towns<br><br>14th Century Crickhowell<br><br>Laws of women<br><br>**Map(iau):**<br>Wales 14C Map | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint yr oedd Lloegr yn dylanwadu ar fywyd yng Nghymru. | **Llyfr(au):**<br>*Cwricwlwm i Gymru : History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Penodau 2.1 i 2.5<br><br>*Wales and Britain in the Medieval World c.1000-1500)* gan Hefin Mathias, Penodau 11, 12, 13 a 16<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Penodau 5, 6 a 16<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Cyflwyniad | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.2.1 Cefndir teuluol Owain Glyndŵr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • llinach Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<br>◦ ei dad Gruffudd Fychan ap Gruffudd, disgynnydd i dywysogion Powys<br>◦ ei fam Elen ferch Thomas ap Llywelyn, disgynnydd i dywysogion Deheubarth a Gwynedd. | Rhannu Cymru yn deyrnasoedd cyn y Goncwest.<br><br>Beth ddigwyddodd i deyrnasoedd Powys a Gwynedd ar ôl y Goncwest Edwardaidd.<br><br>Ystyr y teitl Tywysog Cymru, o safbwynt Cymru.<br><br>Treftadaeth teulu Owain Glyndŵr a'i hawl i fod yn Dywysog Cymru. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i deitl Tywysog Cymru ac ysgrifennwch esboniad ohono.<br><br>Lluniwch goeden deulu i ddangos cyndeidiau Owain Glyndŵr a'u cysylltiadau â llinachau brenhinol Cymreig Powys, Gwynedd a Deheubarth.<br><br>Ysgrifennwch hanes byr o'r prif ddigwyddiadau wnaeth effeithio ar y llinachau brenhinol hynny hyd at y 14eg ganrif<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam roedd Owain Glyndŵr yn gallu hawlio teitl Tywysog Cymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r testun hwn, pa mor gryf oedd achos Owain Glyndŵr i fod yn Dywysog Cymru ym marn y dysgwyr? Dylent geisio ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn yr hawl hon. | **Gwefan(nau):**<br>Owain Glyndŵr<br><br>Owain Glyndŵr: Achau<br><br>Owain Glyndŵr: Manylion Teuluol<br><br>Owain Glyndwr - Unruly Figures<br><br>Family tree of Welsh monarchs<br><br>On the trail of the Princes of Powys<br><br>Princes of Powys Fadog and Maelor<br><br>Kingdom of Gwynedd<br><br>Deheubarth<br><br>Gruffudd Fychan II<br><br>Prince of Wales<br><br>Kings and Princes of Wales - Historic UK | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ba mor ddilys oedd Glyndŵr i hawlio teitl Tywysog Cymru. | **Fideo(s):**<br>The Prince of Wales: What Everybody Gets Wrong<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch o 6:50)<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (tan 5:20)<br><br>**Map(iau):**<br>Teyrnasoedd canoloesol Cymru<br><br>Wales 14C Map<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 1<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • natur a phwysigrwydd ei fywyd cynnar, gan gynnwys:<br>• effaith marwolaeth ei dad yn 1370<br>• dod yn gyfreithiwr ar brentisiaeth yn Ysbytai'r Brawdlys yn Llundain. | Tarddiad cyfenw Glyndŵr o un o faenordai ei deulu yng Nglyndyfrdwy.<br><br>Plant amddifad yr uchelwyr yn cael eu maethu.<br><br>Cefnogaeth gan John Hanmer i gael ei fagu fel uchelwr.<br><br>Hyfforddiant cyfreithiol yn y cyfnod hwn a rôl bwysig Syr John yn y system gyfreithiol yn Lloegr. | **Gweithgareddau:**<br>Esboniwch pam y cymerodd John Hanmer ofal o Owain Glyndŵr.<br><br>Ymchwiliwch i rôl Ysbytai'r Brawdlys mewn hyfforddiant cyfreithiol yn y cyfnod hwn.<br><br>Ymchwiliwch i system llysoedd yr Oesoedd Canol ac esboniwch rôl John Hanmer ynddi.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bywyd cynnar Owain Glyndŵr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ystyriwch faint o ddylanwad a gafodd John Hanmer dros fywyd Glyndŵr – i ba raddau yr oedd yn ymddwyn fel tad Glyndŵr?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch y dylanwadau pwysig ar Owain Glyndŵr ar yr adeg hon o'i fywyd. | **Gwefan(nau):**<br>Glyndyfrdwy<br><br>Owain Glyndŵr: The last Welsh Prince of Wales<br><br>Owain Glyndwr - Unruly Figures<br><br>Owain Glyndwr: Early life and marriage<br><br>David Hanmer<br><br>Justice of the King's Bench<br><br>Inns of Court: History<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch tan 6.50)<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch tan 5:20)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 1 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 2 | |
| • arwyddocâd ei fywyd priodasol, gan gynnwys:<br>• ei briodas â Margaret Hanmer<br>• byw fel arglwydd Sycharth. | Priodi i deulu uchelwyr Hanmer yn Eglwys San Chad yn Hanmer.<br><br>Plant Owain Glyndŵr a'u priodasau i deuluoedd uchelwyr Lloegr.<br><br>Owain yn hawlio teitl arglwydd Sycharth. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i Margaret o Hanmer ac ysgrifennwch baragraff am bwy oedd hi a'i phriodas ag Owain Glyndŵr.<br><br>Ychwanegwch blant Owain Glyndŵr a beth ddigwyddodd iddyn nhw i'r goeden deulu o wers gynharach.<br><br>Esboniwch pam roedd Owain yn hawlio teitl arglwydd Sycharth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd teulu Owain Glyndŵr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch i ba raddau yr oedd Owain Glyndŵr yn ymddangos yn fwy fel arglwydd Seisnig na thywysog Cymreig. | **Gwefan(nau):**<br>Historic Settlement Survey - Cyngor Bwrdeistref Wrecsam<br><br>Owain Glyndwr: The last Welsh Prince of Wales<br><br>Margaret Hanmer<br><br>Owain Glyndwr: Family Details<br><br>Owain Glyndwr - Family Tree<br><br>Owain Glyndwr: Issue and descendants<br><br>Owain Glyndwr: Sycharth<br><br>Sycharth | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y math o berson oedd Owain Glyndŵr cyn iddo fod yn rhan o wrthryfel yn erbyn rheolaeth Loegr. | **Fideo(s):**<br>Sycharth Castle Reconstruction<br><br>Sycharth, Motte and Bailey Castle near Llansilin, Powys<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch tan 6.50)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 1<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.2.2 Gwasanaeth milwrol Owain Glyndŵr i Rhisiart II, Brenin Lloegr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • natur gwasanaeth milwrol cynnar Owain Glyndŵr yn yr Alban, gan gynnwys:<br>  • ei ymwneud â garsiwn Berwick-on-Tweed<br>  • ei wasanaeth milwrol i John o Gaunt. | Rôl yswain ym myddin y 14eg ganrif.<br><br>Y rhesymau dros y rhyfel â'r Alban yn yr 1380au.<br><br>Gwasanaeth milwrol Glyndŵr ar gyfer y Cymro Syr Gregory Sais yn Berwick.<br><br>Pwysigrwydd cael John o Gaunt fel noddwr. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i'r broses o fynd yn farchog yn y cyfnod hwn, a beth fyddai bod yn yswain yn ei olygu i Owain Glyndŵr ac ysgrifennwch ddisgrifiad o hyn.<br><br>Esboniwch pam yr oedd rhyfel â'r Alban a rôl Owain Glyndŵr yn hynny.<br><br>Lluniwch fywgraffiad byr o John o Gaunt a defnyddiwch hwn i esbonio pam byddai'n gysylltiad pwysig i Owain Glyndŵr ei gael.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth oedd gwasanaeth milwrol yn ei olygu i Owain Glyndŵr a'i ran yn y rhyfel â'r Alban.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Trafodwch pa mor bwysig oedd cael rhywun fel John o Gaunt fel noddwr. | **Gwefan(nau):**<br>Squire<br><br>How to become a medieval knight - World History Encyclopaedia<br><br>English invasion of Scotland (1385)<br><br>The Reign of Richard II, 1377 to 1399<br><br>David Le Hope and Sir Gregory Sais<br><br>https://spartacus-educational.com/John_of_Gaunt.htm<br><br>John of Gaunt<br><br>**Fideo(s):**<br>Worst jobs in Middle Ages: The Squire<br><br>The 3 Stages to Become a Medieval Knight | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhagfynegwch beth fyddai hyn yn ei olygu i berthynas Owain Glyndŵr â mab John o Gaunt, Henry Bolingbroke yn y dyfodol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd John o Gaunt ym mywyd Owain Glyndŵr. | The Death of John of Gaunt<br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 5.20 i 8.30)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 1<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 2 | |
| • llwyddiannau ei wasanaeth milwrol yn y Sianel (Y Môr Udd), gan gynnwys:<br>  • ei rôl fel yswain i Iarll Arundel<br>  • ei rôl fel yswain i Henry Bolingbroke. | Amlinelliad o ddigwyddiadau'r Rhyfel Can Mlynedd gyda Ffrainc.<br><br>Brwydr Margate yr oedd Glyndŵr yn rhan ohoni.<br><br>Y berthynas â Henry Bolingbroke, mab John o Gaunt, yn y cyfnod hwn. | **Gweithgareddau:**<br>Lluniwch linell amser i ddangos a rhoi esboniad cryno o brif ddigwyddiadau'r Rhyfel Can Mlynedd<br><br>Esboniwch pam roedd gwrthdaro rhwng Ffrainc a Rhisiart II yn y cyfnod hwn<br><br>Ymchwiliwch i Frwydr Margate a rhan Owain Glyndŵr ynddi | **Gwefan(nau):**<br>The Reign of Richard II, 1377 to 1399<br><br>The Hundred Years' War, 1337-1453<br><br>French ascendancy under Charles V: 1369–1389<br><br>Battle of Margate<br><br>Second peace: 1389–1415 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rhan Owain Glyndŵr yn y rhyfel â Ffrainc fel rhan o'r Rhyfel Can Mlynedd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Bydd y dysgwyr yn trafod i ba raddau yr oedd perthynas Owain Glyndŵr â Henry Bolingbroke yr un fath â'i berthynas â John o Gaunt, tad Bolingbroke.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am berthynas Owain Glyndŵr â Henry Bolingbroke yn y cyfnod hwn. | 1385 and all that: The failed French conquest of England<br><br>Richard Fitzalan, 4th Earl of Arundel<br><br>Henry IV of England: Conflict at court<br><br>**Fideo(s):**<br>The Hundred Years' War<br><br>History of England - Ashes<br><br>**Podlediad(au):**<br>The Hundred Years' War - Dan Snow's History Hit<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 5.20 i 8.20)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 1<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • diwedd ei wasanaeth milwrol, gan gynnwys:<br>◦ amddiffyn Rhisiart II rhag ei wrthwynebwyr gwleidyddol<br>◦ ei ymddeoliad i Sycharth. | Y dadlau rhwng Rhisiart II a'i wrthwynebwyr gwleidyddol yn yr 1380au.<br><br>Rhagor o ddadlau rhwng Rhisiart II a'r Arglwyddi Apelyddol.<br><br>Ymddeoliad Owain Glyndŵr o wasanaeth milwrol i fyw fel arglwydd Sycharth. | **Gweithgareddau:**<br>Amlinellwch y problemau yr oedd Rhisiart II yn eu cael â'i wrthwynebwyr gwleidyddol, yr Arglwyddi Apelyddol<br><br>Esboniwch sut effeithiodd y problemau â'r Arglwyddi Apelyddol ar Owain Glyndŵr<br><br>Pa argraff mae'r bardd Iolo Goch yn ei rhoi o Owain Glyndŵr fel arglwydd Sycharth, yn ôl ei farddoniaeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rôl Owain Glyndŵr yn delio â gwrthwynebiad gwleidyddol i Rhisiart II.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Pe byddai Owain Glyndŵr wedi cael ymddeoliad heddychlon heb wrthryfela yn amharu arno, sut byddai hanes yn ei gofio?<br><br>**Canlyniad uwch:** Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch yr hyn yr oedd Owain Glyndŵr wedi'i gyflawni erbyn iddo ymddeol i Sycharth yn yr 1390au. | **Gwefan(nau):**<br>Battle of Radcot Bridge<br><br>Richard II of England: Second crisis of 1397–1399<br><br>Lords Appellant<br><br>Who—and What—were the Lords Appellant?<br><br>The Reign of Richard II, 1377 to 1399<br><br>Sycharth Castle<br><br>Iolo Goch (c.1320-c.1398), poet<br><br>Owain Glyndwr's Court (Iolo Goch)<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 5.20 i 8.30)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 1 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.2.3 Owain Glyndŵr a'r gefnogaeth i Wrthryfel Cymru** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y drwgdeimlad oedd yn sail i'r gefnogaeth i Wrthryfel Glyndŵr yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• diffyg cyfleoedd i bobl Cymru<br>• effaith Harri IV yn cipio gorsedd Lloegr oddi wrth Rhisiart II. | Triniaeth pobl frodorol Cymru o gymharu â choncwerwyr Lloegr.<br><br>Trawsfeddiannaeth Harri IV o Rhisiart II, gan wanhau ei hawl i bŵer fel brenin Lloegr.<br><br>Goblygiadau'r newid brenin i Owain Glyndŵr. | **Gweithgareddau:**<br>Rhowch grynodeb o sut yr oedd y Goncwest Edwardaidd wedi gadael llawer o bobl frodorol Cymru yn byw fel dinasyddion ail ddosbarth, a chysylltwch hyn â chefnogaeth ar gyfer unrhyw wrthryfel posibl.<br><br>Esboniwch sut daeth Harri IV yn frenin.<br><br>Ystyriwch effaith bosibl y newid brenin ar Owain Glyndŵr.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall cyd-destun gwrthryfel Glyndŵr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar y podlediad The Rest is History am Harri IV a gwnewch nodiadau ar sut rhoddodd y ffordd y daeth yn frenin resymau i'w wrthwynebwyr herio ei bŵer. | **Gwefan(nau):**<br>Owain Glyndŵr: Cefnogwyr<br><br>The revolt of Owain Glyndwr - Wales History<br><br>Richard II of England: Downfall<br><br>Henry IV of England: Reign<br><br>King Henry IV Historic UK<br><br>**Fideo(s):**<br>Henry IV<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr, The Last Prince of Wales (Part 1)<br><br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch o 6.50)<br><br>Richard II vs. Henry IV - Gone Medieval | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am sut effeithiodd Harri IV yn dod i rym ar Owain Glyndŵr a phobl Cymru. | Henry IV: The Usurper King<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 2<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Pennod 1<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 3<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • llwyddiannau cynnar y gwrthryfel, gan gynnwys:<br>• anghydfod Glyndŵr â'r Arglwydd Grey<br>• Brwydr Mynydd Hyddgen, 1401. | Anghydfod cyfreithiol Glyndŵr â'r Arglwydd Grey.<br><br>Dechrau gwrthryfel Glyndŵr o Ruthun i Gonwy.<br><br>Brwydr Mynydd Hyddgen a'i ganlyniadau i Gymru. | **Gweithgareddau:**<br>Esboniwch sut arweiniodd anghydfod cyfreithiol Glyndŵr â'r Arglwydd Grey o Ruthun at ei benderfyniad i ddatgan gwrthryfel yn erbyn Brenin Lloegr.<br><br>Lluniwch linell amser gryno yn cynnwys manylion y prif ddigwyddiadau o ddatgan y gwrthryfel yn Rhuthun i Frwydr Mynydd Hyddgen.<br><br>Esboniwch y cysyniad o chevauchee a sut cafodd ei ddefnyddio gan y ddwy ochr ar ddechrau gwrthryfel Glyndŵr.<br><br>Esboniwch beth ddigwyddodd ym Mrwydr Mynydd Hyddgen a pham yr oedd yn fuddugoliaeth i'r Cymry.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall datblygiad cynnar gwrthryfel Glyndŵr o anghydfod cyfreithiol ag arglwydd cyfagos i drechu byddin Lloegr mewn brwydr agored.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar bodlediad Half-Arsed History ar Owain Glyndŵr rhwng 8.30 a 20.35 a gwnewch | **Gwefan(nau):**<br>Reynold Grey, 3rd Baron Grey of Ruthin<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Gwrthwynebwyr<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Gwrthryfel<br><br>Chevauchée<br><br>Owain Glyndŵr: The seeds of revolt<br><br>The Revolt<br><br>The Battle of Mynydd Hyddgen - Historic UK<br><br>Battle of Mynydd Hyddgen Wikipedia<br><br>Brwydr Hyddgen<br><br>**Fideo(s)**<br>Maps of campaigns 1400-1405<br><br>Battle of Mynydd Hyddgen<br><br>**Podlediad(au):** | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | nodiadau ar y ffyrdd gwahanol y llwyddodd Glyndŵr a'i gefnogwyr i gyflawni eu nodau ym mlynyddoedd cyntaf y gwrthryfel – pa ddull oedd yr un mwyaf llwyddiannus?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ar sut llwyddodd Owain Glyndŵr a'i gefnogwyr i gyflawni eu llwyddiannau cynnar yn erbyn rhwystrau sylweddol. | Owain Glyndwr, The Last Prince of Wales (Part 1)<br><br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch o 6.50)<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 8.30-20.35)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 2<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Pennod 2<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales,* gan Terry Breverton, Penodau 3 a 4 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |
| • digwyddiadau wnaeth arwain at gynnydd yn y gefnogaeth i'r gwrthryfel yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • effaith deddfau cosbi Harri IV<br>  • llwyddiant Glyndŵr ym Mryn Glas, 1402. | Deddfau Cosbi Senedd Lloegr yn erbyn y Cymry.<br><br>Y rhesymau dros y cynnydd yn y gefnogaeth ymysg y Cymry ledled Ynysoedd Prydain.<br><br>Cipio a phridwerthu Arglwydd Grey, o gymharu â chipio Edmund Mortimer.<br><br>Brwydr Bryn Glas a'i heffaith ar wrthryfel Owain Glyndŵr.<br><br>Glyndŵr yn peidio â chefnogi Hotspur yn erbyn Harri IV yn Amwythig yn 1403. | **Gweithgaredd:**<br>Esboniwch sut yr oedd y deddfau cosbi a basiwyd gan y Senedd mewn ymateb i'r gwrthryfel hwn yn cosbi'r gwrthryfelwyr, pobl Cymru yn fwy cyffredinol a'u cefnogwyr yn Lloegr.<br><br>Disgrifiwch sut gwnaeth Owain Glyndŵr drin Arglwydd Grey ac Edmund Mortimer pan gawson nhw eu cipio<br><br>Esboniwch beth ddigwyddodd ym Mrwydr Bryn Glas a sut effeithiodd hyn ar wrthryfel Glyndŵr.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam yr oedd mwy a mwy o bobl yn cael eu denu i gefnogi gwrthryfel Owain Glyndŵr.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Cymharwch safle Arglwydd Grey â safle Edmund Mortimer a nodwch y nodweddion tebyg a | **Gwefan(nau):**<br>Penal laws against the Welsh<br><br>Background to the Penal Laws 1401-1414<br><br>Battle of Bryn Glas<br><br>Brwydr Brynglas (Pilleth)<br><br>The Revolt of Owain Glyndwr - Pilleth: the battle of Bryn Glas, 1402<br><br>Edmund Mortimer (rebel)<br><br>Reynold Grey, 3rd Baron Grey of Ruthin<br><br>The Revolt - Part Two<br><br>The Battle of Shrewsbury - Historic UK<br><br>Battle of Shrewsbury - Battlefields Hub | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwahanol yn y ffordd y cawsant eu trin gan Owain Glyndŵr.<br><br>Ymchwiliwch i Frwydr Amwythig yn 1403. Trafodwch y rhesymau pam dewisodd Owain Glyndŵr beidio â chefnogi ei gynghreiriad Henry Percy (Hotspur) o Northumberland yn ei frwydr bwysig yn erbyn Harri IV – ai hyn oedd y peth cywir i'w wneud?<br><br>**Canlyniad uwch:** Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau pwysig a wnaeth Glyndŵr ar yr adeg hon yn ei wrthryfel. | Henry Percy (Hotspur)<br><br>**Fideo(s):**<br>Maps of campaigns 1400-1405<br><br>Battle of Bryn Glas<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr, The Last Prince of Wales (Part 2)<br><br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch o 6.50)<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 20.35-25.45)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 2<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Pennod 3<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of* | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Wales*, gan Terry Breverton, Penodau 5 a 6<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.2.4 Teyrnasiad Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sut gwnaeth Owain Glyndŵr sefydlu ei hun yn Dywysog Cymru, gan gynnwys:<br>  • defnyddio Castell Harlech fel canolbwynt y llywodraeth<br>  • cynnal Senedd Cymru ym Machynlleth. | Coroni Owain Glyndŵr yng Nghastell Harlech.<br><br>Owain Glyndŵr yn sefydlu senedd Cymru ym Machynlleth.<br><br>Cynlluniau Glyndŵr ar gyfer senedd Cymru, prifysgolion yng Nghymru ac agweddau eraill ar ei Gymru annibynnol arfaethedig. | **Gweithgareddau:**<br>Disgrifiwch rôl Castell Harlech fel lleoliad coroni Glyndŵr fel Tywysog Cymru ac fel canolfan ei lywodraeth.<br><br>Esboniwch sut daeth Machynlleth yn lleoliad i senedd Glyndŵr.<br><br>Amlinellwch beth oedd Owain Glyndŵr am ei gael yn ei Gymru annibynnol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddisgrifio eu bod yn deall sut sefydlodd Rhys ap Gruffudd ei hun fel Tywysog Cymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch: (a) pa mor ddiogel oedd llywodraeth Owain Glyndŵr a (b) pha mor realistig oedd ei weledigaeth ar gyfer Cymru annibynnol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ba mor sefydlog oedd llywodraeth Glyndŵr. | **Gwefan(nau):**<br>Owain Glyndŵr: Crowning as Prince of Wales<br><br>Harlech Castle<br><br>Castell Harlech: Meddylfryd Gwarchae - Cadw<br><br>Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Seneddau<br><br>Owain Glyndwr's Parliament House<br><br>**Fideo(s):**<br>Harlech Castle - History Hit<br><br>Owain Glyndwr and Harlech Castle<br><br>Parliament House, Machynlleth | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr, The Last Prince of Wales (Part 2)<br><br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch o 6.50)<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 20.45-28.30)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Penodau 3 a 5<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Pennod 4<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 8 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |
| • cefnogaeth i'w deyrnasiad y tu hwnt i Gymru, gan gynnwys:<br>• y Cytundeb Tridarn a'r cytundeb gyda'r Ffrancwyr<br>• Llythyr Pennal. | Cytundeb 1405 gyda Mortimer a Percy i rannu Cymru a Lloegr ymysg ei gilydd.<br><br>Cynghrair â Ffrainc ac arwyddocâd hyn yng nghyd-destun y Rhyfel Can Mlynedd, gan gynnwys yr anghytundeb yn Woodbury Hill.<br><br>Llythyr Pennal o 1406 a'r hyn mae'n ei ddweud am weledigaeth Glyndŵr ar gyfer dyfodol Cymru annibynnol. | **Gweithgareddau:**<br>Ar fap gwag o dir mawr Prydain, amlinellwch sut yr oedd Glyndŵr, Percy Iarll Northumberland a Mortimer yn bwriadu rhannu Cymru a Lloegr ac anodwch â manylion eu cytundeb.<br><br>Esboniwch sut arweiniodd y cytundeb â'r Ffrancwyr at oresgyniad byr iawn o Loegr gan y Ffrancwyr.<br><br>Disgrifiwch beth oedd llythyr Pennal gan Owain Glyndŵr i frenin Ffrainc yn ei ddweud.<br><br>Trafodwch yr hyn y mae'r indentur, y cytundeb â Ffrainc a llythyr Pennal yn ei ddweud wrthym am wendidau safle Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru. | **Gwefan(nau):**<br>Second peace: 1389–1415<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Cytundeb Tridarn<br><br>Cytundeb Tridarn<br><br>Ymgyrch 1405<br><br>Owain Glyndwr and the French Connection<br><br>Woodbury Hill: History<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Llythyr Pennal<br><br>Pennal Letter - Wikipedia<br><br>The revolt: part three - Wales History<br><br>Western Schism | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall angen Glyndŵr am gefnogaeth dramor i'w Gymru annibynnol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i'r sgism yn yr eglwys ar yr adeg hon a defnyddiwch y wybodaeth hon i esbonio pam cafodd llythyr Pennal Glyndŵr ei ystyried fel rhywbeth dadleuol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am oblygiadau crefyddol cynlluniau Owain Glyndŵr ar gyfer Cymru. | **Fideo(s):**<br>Owain Glyndwr's Pennal Letter<br><br>Avignon Papacy & Western Schism<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr, The Last Prince of Wales (Part 2)<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 20.45 i 28.30)<br><br>**Map(iau):**<br>Cymru a Lloegr wedi'u rhannu'n tair rhan<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Penodau 3 a 4<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales,* gan Terry Breverton, Pennod 9 “The Rise and Fall of | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Penodau 5, 6, 7 a 10<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |
| • yr anawsterau cynyddol a wynebodd yn ystod ei deyrnasiad, gan gynnwys:<br>  • buddugoliaeth y Saeson ym Mhwll Melyn, 1405<br>  • y Saeson yn cipio Castell Harlech, 1409. | Y newid yn ffawd y Saeson yng Nghymru dan arweinyddiaeth Tywysog Cymru, Hal o Drefynwy (darpar Harri V).<br>Trechu gwrthryfelwyr Glyndŵr ym Mrwydr Pwll Melyn.<br>Trechu gwrthryfel Glyndŵr yn 1409 a'r Saeson yn ail-gipio Castell Harlech. | **Gweithgareddau:**<br>Esboniwch y tactegau newydd tuag at y Cymry a ddefnyddiwyd gan Dywysog Hal.<br><br>Esboniwch pam y trechwyd lluoedd Glyndŵr ym Mrwydr Pwll Melyn.<br><br>Disgrifiwch sut llwyddodd y Saeson i adennill rheolaeth o Gastell Harlech.<br><br>Esboniwch pam yr oedd gwrthryfel Glyndŵr drosodd i bob pwrpas erbyn 1410.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam roedd y Saeson wedi trechu gwrthryfel Glyndŵr. | **Gwefan(nau):**<br>Henry V of England: Early military career and role in Government<br><br>The Military Garrisons of Henry IV and Henry V<br><br>Owain Glyndwr - Wikipedia<br><br>The Revolt: Part Three - Wales History<br><br>Battle of Pwll Melyn<br><br>Battle of Pwll Melyn (Usk)<br><br>Hallowed Ground: Pwll Melyn, Wales<br><br>Timeline - 1406-1409 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch i ba raddau yr oedd trechu Owain Glyndŵr yn ymwneud mwy â chryfder y Saeson na gwendid y Cymry.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y rheswm pwysicaf dros drechu Glyndŵr. | The Turbulent History of Harlech Castle and Episode Nine<br><br>**Fideo(s):**<br>Maps of campaigns 1400-1405<br><br>Pwll Melyn, Battle of Usk<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr and The Welsh Revolt - Dan Snow's History Hit (Gwrandewch o 22.40)<br><br>Henry IV: The Return of The King? - Rest Is History<br><br>Owain Glyndwr and the Welsh Revolt - Half-Arsed History (Gwrandewch o 28.30)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 3<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales,* gan Terry Breverton, Penodau 9, 10 ac 11<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Penodau 8, 9 a 12<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Marwolaeth a gwaddol Owain Glyndŵr** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • blynyddoedd olaf gwrthryfel Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<br>◦ gwrthod pardwn oddi wrth Harri IV yn 1411<br>◦ yr ymgyrchoedd gerila parhaus. | Gwrthod pardwn Harri IV yn 1411 a Harri V yn 1415.<br><br>Arestio a dienyddio cefnogwyr allweddol Glyndŵr – 1409 Edward Mortimer, 1410 Rhys Ddu o Aberteifi.<br><br>Gweithred gyhoeddus olaf yn cipio a phridwerthu Dafydd Gam, un o gefnogwyr y brenin yn 1412.<br><br>Sïon ynghylch gweithgarwch gerila parhaus cefnogwyr Glyndŵr ym mynyddoedd Gogledd Cymru. | **Gweithgareddau:**<br>Ystyriwch pam gwnaeth Harri IV a V gynnig rhoi pardwn i Owain Glyndŵr a pham y gwrthododd eu derbyn.<br><br>Ymchwiliwch i ffawd cefnogwyr Glyndŵr fel Mortimer a Rhys Ddu.<br><br>Disgrifiwch herwgipio a phridwerthu Dafydd Gam.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod gwrthryfel Glyndŵr wedi pylu yn hytrach na dod i ben.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch pam yr oedd y gweithgarwch gerila parhaus yn ei gwneud yn anodd i'r gwrthryfel ddod i ben yn llwyr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pam yr oedd yn anodd i wrthryfel Glyndŵr ddod i ben. | **Gwefan(nau):**<br>Owain Glyndwr - Wikipedia<br><br>Dafydd Gam - Wikipedia<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Dyddiau Olaf Glyndŵr<br><br>**Podlediad(au):**<br>Owain Glyndwr, The Last Prince of Wales (Part 2)<br><br>**Map(iau):**<br>1409-1410: Last Great Raids<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 6<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 12 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Penodau 12 a 13<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |
| • gwaddol uniongyrchol gwrthryfel Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<br>• effaith y gwrthryfel parhaus ar ei gefnogwyr a'i deulu<br>• dirgelwch ei farwolaeth a'i gladdedigaeth. | Effaith y gwrthdaro ar deuluoedd a oedd wedi cefnogi Glyndŵr fel y teulu Hanmer a'r teulu Tudur.<br><br>Cipio gwraig, mab, dwy ferch a thair wyres Owain a'u carcharu yn Nhŵr Llundain.<br><br>Yr esboniadau gwahanol ar gyfer ble a phryd y bu farw Glyndŵr, a ble cafodd ei gladdu. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i'r effaith a gafodd cymryd rhan yng ngwrthryfel Glyndŵr ar y teuluoedd Hanmer a Thudur.<br><br>Disgrifiwch yr hyn wnaeth ddigwydd i deulu Glyndŵr.<br><br>Esboniwch pam mae dadl ynghylch pryd a ble y bu farw Glyndŵr, a ble mae wedi'i gladdu.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y dirgelwch ynghylch blynyddoedd olaf Glyndŵr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i'r esboniadau gwahanol ar gyfer ble mae Owain | **Gwefan(nau):**<br>Glyndwr rebellion: The aftermath of rebellion in Wales<br><br>Cymdeithas Owain Glyndŵr: Tynged Owain Glyndŵr<br><br>Owain Glyndŵr: Disappearance<br><br>Owain Glyndwr - Wikipedia<br><br>Glyndwr's burial mystery 'solved'<br><br>Hi-tech pointer to Welsh rebel's last resting place | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Glyndŵr wedi'i gladdu – trafodwch beth yw'r esboniad mwyaf argyhoeddedig a'r lleiaf tebygol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am yr esboniad sy'n argyhoeddi fwyaf ynghylch ble mae Owain Glyndŵr wedi'i gladdu. | Owain Glyndwr's resting place?<br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 6<br><br>*Owain Glyndwr, the story of the last Prince of Wales*, gan Terry Breverton, Pennod 12<br><br>*The Rise and Fall of Owain Glyndwr* gan Gideon Brough, Pennod 14<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17<br><br>*The Welsh Wars of Independence* gan David Moore, Pennod 7<br><br>*Famous Welsh Battles* gan Philip Warner, Pennod 8 | |
| • Enw da Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<br>• chwedloniaeth y Mab Darogan<br>• dod yn symbol o genedlaetholdeb Cymreig. | Y cysyniad o'r Mab Darogan a pham y gellid ei ddefnyddio ar gyfer Owain Glyndŵr.<br><br>Sut mae Owain Glyndŵr wedi dod yn symbol o | **Gweithgareddau:**<br>Esboniwch y cysyniad o'r Mab Darogan ac ystyriwch y bobl y defnyddiwyd y term ar eu cyfer cyn Owain Glyndŵr. | **Gwefan(nau):**<br>Mab Darogan - Wikipedia<br><br>Three things you might not know about Owain Glyndwr | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | genedlaetholdeb Cymru ers y 19eg ganrif.<br><br>Y ddadl ynghylch arwyddocâd Owain Glyndŵr yn hanes Cymru ac Ynysoedd Prydain. | Ystyriwch pam yr oedd pobl yn meddwl mai Owain Glyndŵr oedd y Mab Darogan.<br><br>Ymchwiliwch i'r ffordd mae Glyndŵr wedi dod yn symbol o genedlaetholdeb Cymru.<br><br>Gallai dysgwyr ddefnyddio'r syniadau o gynllun dehongli Cadw ar gyfer cofeb i Glyndŵr i ddylunio eu cofeb eu hunain, gan esbonio'r rhesymau dros eu dyluniad a ble byddai'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y gofeb yn eu barn nhw.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam mae Owain Glyndŵr wedi dod yn symbol o genedlaetholdeb Cymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar y podlediad In Our Time a gwnewch nodiadau ar y dadleuon gwahanol a roddwyd ar gyfer pwysigrwydd Owain Glyndŵr yn hanes Cymru.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd Owain Glyndŵr yn hanes Cymru. | Owen Glendower (Owain Glyndwr) - Historic UK<br><br>The Legacy of Owain Glyndwr<br><br>Owain Glyndwr - CastleWales.com<br><br>Owain Glyndwr Day - Mid Wales<br><br>Owain Glyndwr Society: The Monument<br><br>Owain Glyndwr and His Uprising<br><br>**Fideo(s):**<br>Horrible Histories Owain Glyndwr Song<br><br>**Sain:**<br>Owain Glyndwr - In Our Time<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Owain Glyndwr, Prince of Wales* gan R.R. Davies, Pennod 7<br><br>*Age of Conquest* gan R.R. Davies, Pennod 17 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Gellir ymweld yn bersonol â rhai o'r safleoedd sy'n gysylltiedig ag Owain Glyndŵr, fel Castell Harlech a'r Senedd ym Machynlleth. Mae gwybodaeth amdano hefyd yn yr amgueddfa yn Llangollen, ger lle y cafodd ei eni, ac mae eglwys St. Chad yn Hanmer lle priododd yn parhau i fod yn eglwys. |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Mae agweddau'r Saeson tuag at y Cymry yn y cyfnod ar ôl y Goncwest Edwardaidd yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar sut mae gwrthdaro yn gallu codi pan fydd un grŵp o bobl yn trin grŵp arall yn wael, ond hefyd bod y gwrthdaro hwn wedi cael ei ddatrys yn y pen draw drwy gymodi. |
| gweithio ar y cyd | Mae llawer o gyfleoedd i drafod, fel:<br>• beth oedd cryfderau a gwendidau rheolaeth Lloegr dros Gymru erbyn diwedd y 14eg ganrif<br>• i ba raddau yr oedd Owain Glyndŵr yn ymddangos yn fwy fel arglwydd Seisnig na thywysog Cymreig<br>• pa mor bwysig oedd cael rhywun fel John o Gaunt fel noddwr<br>• i ba raddau mae dysgwyr yn meddwl bod perthynas Owain Glyndŵr â Henry Bolingbroke yr un fath â'i berthynas â John o Gaunt, tad Bolingbroke.<br>• pa mor ddiogel oedd llywodraeth Owain Glyndŵr<br>• beth mae'r indentur, y cytundeb â Ffrainc a llythyr Pennal yn ei ddweud wrthym am wendidau safle Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru<br>• i ba raddau yr oedd trechu Owain Glyndŵr yn ymwneud mwy â chryfder y Saeson na gwendid y Cymry.<br><br>Mae cyfleoedd i ddadlau hefyd, fel:<br>• i ba raddau yr oedd Cymru yn y cyfnod hwn yn cael ei dylanwadu gan Loegr, gydag un ochr yn dadlau ei bod yn cael ei dylanwadu'n fawr gan Loegr a'r ochr arall yn dadlau nad oedd hynny'n wir. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Uned 1 yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol i ganolfannau sy'n ymwneud â hanes amrywiaeth o ardaloedd yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau lleol neu genedlaethol.<br><br>Mae Opsiwn 1.2 Yr Oesoedd Canol: Owain Glyndŵr, tua 1354–1416 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes yr Oesoedd Canol yng Ngogledd Cymru. Mae nifer o leoliadau yng Ngogledd Cymru sy'n gysylltiedig ag Owain Glyndŵr gan gynnwys Castell Harlech sef canolfan ei lywodraeth, a Chastell Conwy a gipiodd ei gefnogwyr gan y Saeson ar ddechrau'r gwrthryfel. Yng ngogledd-ddwyrain Cymru, mae nifer o safleoedd sy'n gysylltiedig â Glyndŵr, gan gynnwys eglwys San Chad yn Hanmer ac mae'r Senedd ym Machynlleth, Canolbarth Cymru. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Mae'r uned hon yn ystyried safbwynt y Cymry, a'r drwgdeimlad tuag at y Saeson, o ganlyniad iddynt gael eu trin fel dinasyddion ail ddosbarth ers y Goncwest Edwardaidd.<br><br>Bydd dysgwyr yn archwilio'r rhesymau y tu ôl i'r gefnogaeth i Wrthryfel Glyndŵr yng Nghymru, gan gynnwys y diffyg cyfleoedd i'r Cymry, digwyddiadau wnaeth gynyddu'r gefnogaeth yng Nghymru i'r gwrthryfel ac effaith deddfau cosbi Harri IV |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Roedd Cymru wedi'i threfedigaethu gan y Saeson ar ôl cael ei choncro yn y 13eg ganrif. Erbyn diwedd y 14eg ganrif, roedd y Saeson yn gweithredu fel pŵer trefedigaethol yng Nghymru, gan drin y Cymry brodorol fel pe byddent yn ddinasyddion ail ddosbarth yn eu gwlad eu hunain.<br><br>Bydd dysgwyr yn archwilio arwyddocâd ardrefniant Edward, ynghyd â gwrthryfeloedd y Cymry yn erbyn rheolaeth Lloegr. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Nid yw'r rhan fwyaf o'r rolau milwrol yn y rhyfela yn yr Oesoedd Canol mae'r uned hon yn ymdrin â nhw yn rhan o'r gwaith mae pobl yn y lluoedd arfog heddiw yn ei wneud mwyach. Roedd rôl Owain Glyndŵr fel yswain, gyda'r nod o fod yn farchog yn y pen draw, yn wahanol iawn i ddyheadau pobl yng Nghymru heddiw. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes: | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Bydd cyfleoedd ar gael iddynt hefyd i adfyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes: | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifiadol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes: | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.<br>**Enghraifft**<br>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.<br>**Enghraifft**<br>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio. |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol.<br>**Enghraifft**<br>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td>Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</td></tr>
<tr><td>Cynllunio a Threfnu</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu eu canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes:<br><br>Enghraifft</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna i gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br>**Enghreifftiau**<br>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealllusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Geirfa ar gyfer Opsiwn 1.2 Yr Oesoedd Canol: Owain Glyndŵr tua 1354-tua 1416

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cynghrair | Cytundeb rhwng gwledydd i helpu ei gilydd. |
| Seisnigeiddio | Dylanwadu ar bobl Cymru i fod yn debycach i bobl Lloegr. |
| ap | Mab. |
| Chevauchee | Tacteg rhyfel o'r Oesoedd Canol i ysbeilio tiriogaeth y gelyn, gan ddinistrio a dwyn cymaint â phosibl. Y nod oedd gorfodi'r gelyn i frwydro yn yr agored. |
| Llys Mainc y Brenin | Llys cyfreithiol a oedd yn dilyn y Brenin o amgylch yn yr Oesoedd Canol. Hwn oedd y llys uchaf. |
| Y Goncwest Edwardaidd | Pan drechodd Edward I yr olaf o dywysogion Cymru yn y 13eg ganrif a'r rheolaeth Seisnig gwnaeth ef ei orfodi dros Gymru ar ôl hynny. |
| Ferch | Merch. |
| Garsiwn | Grŵp o filwyr wedi'u lleoli mewn lle penodol i'w warchod. |
| Gerila | Brwydro yn erbyn gelyn uwch drwy ymosod heb frwydro'n uniongyrchol gan ddefnyddio technegau fel ymosodiadau dirybudd, difrod bwriadol a llofruddio. |
| Y Rhyfel Can Mlynedd | Rhyfel rhwng Lloegr a Ffrainc ynghylch pwy ddylai fod yn frenin Ffrainc a barodd rhwng 1337 a 1453. |
| Ysbytai’r Brawdlys | Ysgolion yn Llundain i gyfreithwyr dan hyfforddiant i fod yn fargyfreithwyr (cyfreithwyr sy'n arbenigo mewn cynrychioli eu cleientiaid yn y llys). |
| Marchog | Arweinwyr grwpiau o filwyr oedd marchogion. Roeddent yn cael cydnabyddiaeth drwy'r teitlau a roddwyd iddynt gan frenin. |
| Arglwyddi Apelyddol | Grŵp o uchelwyr a geisiodd berswadio Brenin Rhisiart II ei fod yn cael ei gamarwain gan ei hoff gynghorwyr. |
| Mab Darogan | Y Mab Darogan – chwedl Gymreig y byddai rheolwr gwych yn dod i achub Cymru rhag rheolaeth dramor. |
| Y Mers | Y tiroedd yng Nghymru a reolwyd gan arglwyddi Lloegr a gafodd y pŵer hwn gan frenhinoedd Lloegr. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.